| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 16 Gorffennaf 2026 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2025-26 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>ChristianBranch@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Stephen Nicol<br>Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch<br>StephenNicoll@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad sicrwydd blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (3.4.8.7.3) wrth ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor yn ehangach (3.4.8.7.1). Wrth ystyried yr adroddiad bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu (3.4.8.7.2). Gofynnir i'r Pwyllgor hefyd gadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr (3.4.8.8.1). | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Cyngor, hyd at 31 Mawrth 2026, ar weithgareddau'r Cyngor yn gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn ystod 2025-26.

1.2 Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys dadansoddiad o ddamweiniau a digwyddiadau a llwyddiannau allweddol. Mae hefyd yn nodi'r cynllun strategol ar gyfer y blynyddoedd 2026 - 2031.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried a yw gweithgareddau'r Cyngor yn gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn mynd i'r afael â'r risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol.
- Derbyn sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch i lefel dderbyniol.

Adroddiad Blynyddol

Iechyd a Diogelwch 2025 / 26

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn o safbwynt iechyd a diogelwch

CYNNWYS

**Crynodeb Gweithredol**........................................................ **Error! Bookmark not defined.**
**1. Cyflwyniad**.................................................................... **Error! Bookmark not defined.**
**2. Prif Lwyddiannau**......................................................... **Error! Bookmark not defined.**
**3. Rheolaeth Gorfforaethol**.............................................. **Error! Bookmark not defined.**
**4. Gwybodaeth Ystadegol**................................................ **Error! Bookmark not defined.**
**5. Partneriaethau**.............................................................. **Error! Bookmark not defined.**
**6. Ymgynghori ar y Cyd**................................................... **Error! Bookmark not defined.**
**7. Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol**............................ **Error! Bookmark not defined.**
**8. Perfformiad Diogelwch**................................................ **Error! Bookmark not defined.**
**9. Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch 2026-2031**....... **Error! Bookmark not defined.**
**10. Casgliad**........................................................................ **Error! Bookmark not defined.**
**11. Argymhelliad**................................................................ **Error! Bookmark not defined.**
**Atodiad 1 – Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch 2026 - 2031**.................................... 17

## Crynodeb Gweithredol

Mae perfformiad Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn ystod 2025/26 yn dangos gwelliant cyffredinol, gyda llai o ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi am yr ail flwyddyn yn olynol. Cofnodwyd cyfanswm o 1,315 o ddigwyddiadau, o'i gymharu â 1,362 yn 2024/25 a 1,675 yn 2023/24, sy'n adlewyrchu effeithlonrwydd y mesurau rheoli a threfniadau llywodraethiant.

Fodd bynnag, er gwaetha'r patrwm cadarnhaol hwn bu cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau'n ymwneud â gweithwyr, o 404 i 546. Mae'r newid hwn yn awgrymu newid yn y proffil risg gyda staff yn wynebu mwy o risgiau, yn enwedig staff rheng flaen a gweithwyr ym maes addysg, gofal a rolau cyhoeddus eraill.

Y prif faes pryder yw'r cynnydd parhaus mewn trais, camdriniaeth ac ymddygiad ymosodol tuag at staff. Gwelwyd cynnydd mewn ymosodiadau corfforol, ymddygiad heriol a cham-drin geiriol, yn enwedig mewn lleoliadau Addysg a Gofal.

Y categori digwyddiadau eraill yw'r categori mwyaf cyffredin, yn cynnwys llithro, baglu a chwympo, ac at ei gilydd rydym yn deall y digwyddiadau hyn yn dda iawn ac maent yn cael eu rheoli drwy ein dulliau rheoli presennol. Mae digwyddiadau'n ymwneud â'r cyhoedd wedi gostwng, sy'n awgrymu bod y risgiau'n gysylltiedig âdefnyddwyr gwasanaeth ac ymwelwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn datblygodd y Cyngor Gynllun Strategol Iechyd a Diogelwch newydd ar gyfer 2026–2031. Er nad yw wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol eto, mae'n seiliedig ar y risgiau, tueddiadau a gwersi sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Mae'n nodi'r fframwaith hirdymor ar gyfer cryfhau arweinyddiaeth, llywodraethiant, penderfyniadau seiliedig ar ddata a sicrwydd ym mhob gwasanaeth.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethiant, adrodd a chydymffurfiaeth cadarn o hyd ac mae gwaith monitro rheolaidd, goruchwyliaeth gorfforaethol ac atebolrwydd ar lefel gwasanaeth yn cefnogi'r trefniadau hyn. Gwelwyd cynnydd hefyd wrth ddatblygu gwelliannau strategol a gweithredol, yn cynnwys systemau adrodd gwell, ymyraethau wedi'u targedu, a datblygu Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch.

Yn gryno, er bod ein perfformiad yn parhau i wella'n gyffredinol mae'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â gweithwyr – yn enwedig digwyddiadau'n gysylltiedig â thrais ac ymddygiad ymosodol – yn peri cryn bryder. Mae'n allweddol ein bod yn mynd i'r afael â'r risg yma er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol.

## 1. Cyflwyniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad ym maes Iechyd a Diogelwch. Mae'r fframwaith a'r canllawiau yn darparu cyfres o benawdau fel cymorth ar gyfer adrodd ar berfformiad ym maes iechyd a diogelwch. Nid yw'n fwriad i'r fframwaith fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond fe ddylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad o ran rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y fformat a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 2. Prif Lwyddiannau

- Un o'r prif lwyddiannau eleni oedd datblygu Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Cyngor, drwy ymgysylltu'n helaeth â Gwasanaethau, y Tîm Arweinyddiaeth, y Tîm Rheoli Corfforaethol, cydlynwyr Iechyd a Diogelwch a Rheolwyr Busnes. Er nad yw wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol, mae'r Cynllun yn darparu fframwaith hirdymor clir ar gyfer cryfhau arweinyddiaeth, llywodraethiant, diogelwch yn seiliedig ar ddata a sicrwydd.

- Yn ystod cyfnod o bwysau ariannol yn gymdeithasol ac yn sgil yr hinsawdd economaidd ehangach, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau. Mae'r gallu i gynnal y gwasanaethau hyn a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn dipyn o gamp.

- Mae digwyddiadau'n gysylltiedig â'r cyhoedd wedi gostwng o 830 i 740, er bod llawer yn defnyddio ysgolion, canolfannau hamdden, gwasanaethau ieuenctid, a lleoliadau gofal. Mae'r gostyngiad hwn yn dangos bod y risgiau a wynebir gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac ymwelwyr yn parhau i gael eu rheoli'n effeithiol.

- Sefydlwyd gweithgor traws wasanaeth i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ymddygiad treisgar ac ymosodol ym maes Addysg. Mae'r grŵp – sy'n cynnwys Penaethiaid, Swyddogion Addysg, y Tîm Ymyrraeth Gynnar a'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol – wedi datblygu polisïau, gweithdrefnau a deunyddiau ymwybyddiaeth newydd i gefnogi ysgolion. Mae gwaith ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi cryfhau'r dull o ddelio â risgiau'n gysylltiedig â chwympo ac ymddygiad mewn lleoliadau preswyl.

- Gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu system cofnodi digwyddiadau electronig yn gysylltiedig â'r broses Marciwr Risg o Drais (RVM). Bydd y system hon yn gwella cyflymder, cywirdeb a chysondeb y gwaith adrodd, cefnogi cydymffurfiaeth â'r gofynion Diogelu Data, a darparu gwybodaeth risg amserol i staff.

- Mae'r gwaith i ddatblygu fframwaith corfforaethol newydd ar gyfer rheoli risgiau'n gysylltiedig ag Offer Sgrîn Arddangos (DSE) yn mynd rhagddo, gyda'r nod o wella cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws pob gwasanaeth. Bydd y fframwaith yn darparu rhybuddion awtomatig pan mae angen cwblhau asesiad, darparu llwybr clir i gydlynwyr a rheolwyr wrth adolygu asesiadau, a chefnogi'r gwaith o fonitro cyfraddau cyflawni. Unwaith y bydd wedi cael ei

gwblhau a'i gyflwyno, bydd yn darparu dull mwy strwythuredig, cyson ac anchwiliadwy o gydymffurfio â'r gofynion DSE, gan wella llywodraethiant a sicrwydd.

## 3. Rheolaeth Gorfforaethol

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth (TA) wedi parhau i ddarparu llywodraethiant a goruchwyliaeth strategol o ran gweithrediadau'r Cyngor. Cefnogir hyn drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, sy'n uwch gyfeirio materion i'r Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd pan fo angen.

Caiff adroddiadau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol pob chwarter.

## 4. Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r data a gyflwynir isod yn ymwneud â'r holl ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn 2025/26 o'i gymharu â 24/25 a 23/24. Mae damweiniau a digwyddiadau wedi eu categoreiddio mewn tri phrif grŵp – Mân, Difrifol a RIDDOR.

**a.** Mae **mân ddamweiniau a digwyddiadau** yn ddamweiniau/digwyddiadau lle nad oedd yr anaf neu'r golled yn sylweddol. Mae hynny'n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle nad oedd anaf neu golled, a phe bai anaf neu golled wedi digwydd ni fyddai'r canlyniadau wedi bod yn sylweddol.

**b.** Mae **damweiniau/digwyddiadau difrifol** yn cynnwys y rheini a arweiniodd at anaf neu golled sylweddol neu ble'r oedd posibilrwydd o anaf neu golled o'r fath. Mae hynny'n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle nad oedd anaf neu golled, ond lle gallai'r canlyniad fod wedi bod yn sylweddol pe bai anaf neu golled wedi digwydd.

**c.** Mae **damweiniau a digwyddiadau RIDDOR** yn ddamweiniau a digwyddiadau sydd yn cwrdd â meini prawf penodol ac mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'r meini prawf ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau o'r fath i'w gweld yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus.

Mae'r graff 1 isod yn dangos nifer y damweiniau a'r digwyddiadau yn yr awdurdod cyfan yn ystod 2025/26. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr, cyfleusterau a staff.

**Yr holl ddigwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt**

**Graff 1 – Yr holl ddigwyddiadau yn 205/26**

| | **Digwyddiadau a Gofnodwyd yn 2025/26** |
|---|---|


| | |
|---|---|
|  | **Cyfanswm 1315** |
| | **Mân 1078** |
| | **Difrifol 232** |
| | **RIDDOR 5** |

**Graff 2 – Yr holl ddigwyddiadau yn 2024/25**

| | |
|---|---|
|  | **Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2024/25** |
| | **Cyfanswm 1362** |
| | **Mân 1122** |
| | **Difrifol 237** |
| | **RIDDOR 3** |

**Graff 3 – Yr holl ddigwyddiadau yn 2023/24**

| | |
|---|---|
| | **Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2023/24** |
| | **Cyfanswm 1675** |
| | **Mân 1323** |




| | |
|---|---|
| | **Difrifol 341** |
| | **RIDDOR 11** |

Wrth ddadansoddi graff 1, 2 a 3 gwelir gostyngiad yn nifer y damweiniau a digwyddiadau yn 2025/26 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

Oherwydd dyletswydd gofal y Cyngor tuag at y cyhoedd fel rhan o'r ymrwymiad, mae digwyddiadau a gofnodwyd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol. Mae'r cyhoedd yn cynnwys disgyblion ysgol, disgyblion cyn ysgol, aelodau Clybiau Ieuenctid, Cleientiaid mewn cartrefi gofal a defnyddwyr cyfleusterau Hamdden.

Gall digwyddiadau yn gysylltiedig â'r grŵp hwn gynnwys damweiniau ar feysydd chwarae, cleientiaid yn llithro, baglu a disgyn oherwydd problemau symudedd, digwyddiadau'n ymwneud â chwaraeon a chyflyrau meddygol. Maent yn cael eu cofnodi am reswm cyfreithiol, rhag ofn y bydd angen camau pellach.

Mae niferoedd ar gyfer y digwyddiadau hyn yn cael eu dangos yn Nhabl 1 isod

**Tabl 1 – gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau gwaith**

| **Math o leoliad** | **Cyfanswm nifer y digwyddiadau** | **Cyfanswm nifer y defnyddwyr** |
|---|---|---|
| Ysgolion (Disgyblion) | 389 | 9,256 o ddisgyblion wedi cofrestru, ac maent yn yr ysgol am 190 diwrnod. |
| Digwyddiadau Dechrau'n Deg a Chylch Meithrin a Chlybiau Ieuenctid (Disgyblion ac Aelodau) | 79 | 550 o bobl ifanc yn perthyn i glwb ieuenctid<br>Capasiti o 96 y dydd am 190 dydd. |
| Canolfannau Hamdden (Defnyddwyr) | 99 | 575,195 o ddefnyddwyr dros gyfnod o 360 diwrnod. |
| Cartrefi Gofal a Chanolfannau Dydd (Cleientiaid) | 173 | 130 o gleientiaid yn derbyn gofal am 365 diwrnod y flwyddyn. |
| Cyfanswm | 740 | |

Dengys Tabl 1 y cafwyd gwybod am 740 o ddigwyddiadau'n ymwneud â'r cyhoedd mewn cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor. Mae hyn yn llai na'r 830 a gofnodwyd y llynedd.

Mae pob adran yn cadw data am natur digwyddiadau a thueddiadau er mwyn eu galluog i adnabod meysydd lle mae angen ymyraethau. Mae hyn yn cynnwys adolygu asesiadau risg a datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd.

**Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig**
Mae'r graffiau isod yn dangos nifer y damweiniau a digwyddiadau yn gysylltiedig â gweithwyr yn unig.

**Graff 4 – Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig yn 2025/26**




| |
|---|
| **Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)** |
| **Cyfanswm 546** |
| **Mân 470** |
| **Difrifol 73** |
| **RIDDOR 3** |

**Graff 5 – Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig 2024/25**




| |
|---|
| **Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)** |
| **Cyfanswm 404** |
| **Mân 354** |
| **Difrifol 47** |
| **RIDDOR 3** |

**Graff 6 – Digwyddiadau'n gysylltiedig â gweithwyr yn unig 2023/24**




| Cyfanswm Nifer y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig) |
|---|
| Cyfanswm 357 |
| Mân 273 |
| Difrifol 78 |
| RIDDOR 6 |

Wrth ddadansoddi graff 4, 5 a 6 gwelir bod cynnydd yn nifer y digwyddiadau yn ystod 2025/26 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

**Mathau o Ddigwyddiadau**
Mae'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn cael eu dangos isod yn Nhabl 2

**Tabl 2**

| Math o Ddigwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Ymosodiad Corfforol Anableddau Dysgu**<br>Mae digwyddiad o'r math hwn yn gysylltiedig ag ymosodiad gan gleientiaid neu ddisgyblion, yn anfwriadol o bosib. Efallai na fydd capasiti i adnabod y potensial i achosi niwed. | 209 |
| **Ymosodiad Corfforol**<br>Mae digwyddiad o'r math hwn yn ystyried y gallai'r person fod yn bwriadu achosi niwed. Mae'r math hwn o ddigwyddiad yn amrywio o wthio i daro person. Cafwyd cysylltiad corfforol. | 86 |
| **Digwyddiad Treisgar / Difrïo**<br>Mae digwyddiad o'r math hwn yn ymwneud â sylwadau difrïol neu fygythiol sy'n cael eu hanelu at staff gan y cyhoedd. Gallai gynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n cwyno am broblemau mewn ffordd ymfflamychol. | 109 |
| **Ymddygiad Heriol**<br>Mae hyn yn gysylltiedig ag ymddygiad ymosodol gan gleientiaid / disgyblion, ond, oherwydd problem galluedd meddyliol, efallai nad oedd yn fwriad achosi gofid. | 48 |
| **Llithro, Baglu a Disgyn**<br>Digwyddiadau a gofnodwyd lle mae gweithwyr wedi disgyn ac wedi cael anaf. Gallai hyn gynnwys arwynebau llithrig neu ormod o rwystrau. | 333 |

**Ymosodiad Corfforol Anableddau Dysgu**
Digwyddodd y digwyddiadau hyn yn bennaf yn y meysydd Addysg a Gofal. Roeddent yn gysylltiedig â digwyddiadau lle gallai person fod wedi ymosod heb fwriadu achosi niwed. Roedd 39 digwyddiad yn ymwneud ag aelodau staff yn cael eu taro. Mae hyn yn llai na 62 yn y flwyddyn flaenorol. Yn y maes Gofal, byddai hyn wedi arwain at lunio asesiad risg ar y cleient er mwyn rhoi sylw i anghenion diogelwch y cleient ac aelodau staff. Byddai proses debyg yn cael ei dilyn mewn sefydliadau addysg arbennig.

Mewn sefydliadau addysg cyffredinol gallai'r digwyddiadau hyn fod wedi arwain at ddarparu cymorth gan y Tîm Ymyrraeth Gynnar.

**Ymosodiad Corfforol**
Roedd y digwyddiadau hyn yn y sector addysg yn bennaf. Roedd 38 digwyddiad yn ymwneud â tharo disgyblion eraill. Roedd 30 digwyddiad yn ymwneud â tharo gweithwyr, pob un mewn ysgolion cynradd. Mae'r math yma o ddigwyddiadau ar gynnydd. Mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal rhwng y gwasanaeth Addysg, Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r tîm Ymyrraeth Gynnar i drafod achosion a chefnogi ysgolion yn ôl y galw.

Mae gwaith pellach ar y gweill i fynd i'r afael â hyn ac mae Gweithgor wedi cael ei sefydlu i ystyried mesurau rheoli posib.

**Digwyddiad Treisgar / Difrïo**
Digwyddodd y digwyddiadau hyn mewn croestoriad o wasanaethau'r Cyngor. Mae cam-drin geiriol dros y ffôn wedi'i gynnwys yn y ffigyrau hyn. Roedd 18 digwyddiad lle'r oedd y cam-drin geiriol tuag at ddisgybl neu aelod o'r cyhoedd yn un o adeiladau'r Cyngor. Cofnodwyd 90 achos o gam-drin geiriol tuag a weithwyr y Cyngor o'i gymharu â 65 yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r Polisi Rheoli Cysylltiadau – Gweithredoedd Annerbyniol gan Gwsmeriaid wedi ystyried y mathau hyn o ddigwyddiadau ac mae'n caniatáu i staff ddweud wrth y cleient fod yr ymddygiad yn annerbyniol a rhoi'r ffôn i lawr. Byddai ffurflen digwyddiad yn cael ei chwblhau yn sgil hynny. Os yw'n ddigwyddiad wyneb yn wyneb efallai y bydd asesiad risg yn cael ei lunio. Os yw'n ddigwyddiad mewn adeilad cyhoeddus, megis Canolfan Hamdden, efallai y bydd y person sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ddifrïol yn cael ei wahardd o'r adeilad.

**Ymddygiad Heriol**
Digwyddodd y digwyddiadau hyn yn y meysydd Addysg a Gofal. Roedd y digwyddiadau'n gysylltiedig ag ymddygiad disgyblion neu gleientiaid oedd yn aflonyddu ar y bobl oedd yn bresennol neu'r gwaith oedd yn cael ei wneud. Gallai hyn fod wedi arwain at adolygu'r asesiad risg. Cofnodwyd 4 digwyddiad lle'r oedd gweithwyr y Cyngor wedi cael eu heffeithio gan yr ymddygiad.

**Llithro, Baglu a Disgyn**
Cofnodwyd 333 digwyddiad llithro, baglu a disgyn. Mae'r categori disgyn yn cael ei rannu'n ddau, sef disgyn oddi ar wrthrych a disgyn o uchder. Roedd 86 o'r achosion o lithro, baglu a disgyn a gofnodwyd yn ymwneud â disgyblion ysgol. Ystyrir bod hyn o fewn y terfynau rhesymol ar gyfer chwarae cyffredinol mewn ysgol. Cofnodwyd 135 achos o lithro, baglu a disgyn mewn Cartrefi Gofal ac yn y maes Gofal. Roedd hyn yn gysylltiedig â chleientiaid yn disgyn, o bosib oherwydd cyflyrau meddygol neu oherwydd eu bod yn eiddil. Pan fydd cleient yn disgyn mewn Cartref Gofal, mae asesiad risg yn gysylltiedig â disgyn yn cael ei gynnal yn benodol ar gyfer y cleient hwnnw. Y bwriad fyddai nodi'r risg o ddisgyn yn y dyfodol a chamau posib i'w cymryd

i leihau'r risg. Roedd 30 achos o lithro, baglu a disgyn cyffredinol pryd cafodd staff y cyngor eu hanafu.

**Codi a Chario**

Digwyddodd digwyddiadau Codi a Chario yn y maes gofal yn bennaf. Byddai hyn yn gysylltiedig â chynorthwyo cleientiaid yn hytrach na chodi gwrthrychau. Darperir hyfforddiant penodol er mwyn caniatáu i staff gynorthwyo a chodi cleientiaid yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Yn 2024/25 roedd 35 digwyddiad. Yn 2025/26 roedd hyn wedi gostwng i 16.

Mae 'Math Arall' o ddigwyddiad yn fath o ddigwyddiad sydd wedi cael ei restru ar y system gofnodi. Defnyddir y categori hwn ar gyfer digwyddiadau sy'n anodd eu dosbarthu. Efallai bod aelod staff wedi cofnodi ddigwyddiad fel pryder. Cofnodwyd 55 o ddigwyddiadau dan y pennawd hwn.

Mae categorïau penodol eraill yn bodoli ond ystyriwyd bod y ffigurau ar gyfer y rhain yn rhy isel.

Mae categori ychwanegol wedi cael ei gyflwyno eleni sef Defnyddio Arf. Mae'r categori hwn wedi cael ei gyflwyno yn dilyn nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Cofnodwyd 11 digwyddiad o dan y categori hwn. Roedd 10 o'r digwyddiadau hyn mewn amgylchedd ysgol. Mae'r categori hwn yn cynnwys digwyddiadau lle'r oedd gan y drwgweithredwr arf ond ni wnaeth ei ddefnyddio. Un enghraifft yw darganfod disgybl yn cario cyllell.

**Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR)**

RIDDOR yw'r gyfraith sy'n nodi bod rhaid i gyflogwyr, a phobl eraill sydd â rheolaeth dros safleoedd gwaith, adrodd a chadw cofnodion am ddamweiniau cysylltiedig â gwaith sy'n achosi marwolaeth; damweiniau cysylltiedig â gwaith sy'n achosi rhai mathau o anafiadau difrifol (anafiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt), achosion lle cafwyd diagnosis o rai mathau o glefydau diwydiannol; a rhai 'digwyddiadau peryglus' (digwyddiadau a allai achosi niwed).


Mae'n rhaid rhoi gwybod am ddamweiniau yn gysylltiedig â gwaith sy'n ymwneud â'r cyhoedd neu bobl nad ydynt yn y gwaith os caiff person ei anafu ac os ydynt yn cael eu cludo o safle'r ddamwain i'r ysbyty i dderbyn triniaeth ar gyfer yr anaf hwnnw. Nid yw'n ofynnol sefydlu pa driniaeth a ddarparwyd yn yr ysbyty, ac nid oes angen rhoi gwybod am ddigwyddiadau lle cludwyd pobl i'r ysbyty dim ond fel rhagofal pan nad oedd unrhyw arwydd o anaf.

Cyflwynir dadansoddiad o'r adroddiadau RIDDOR isod yn Nhabl 3.

**Tabl 3 Adroddiadau RIDDOR**

| Dyddiad | Digwyddiad | Rheswm dros adrodd |
|---|---|---|
| 02/07/2025 | Disgyn o uchder dan 2m | Anaf dros 7 diwrnod |
| 17/07/2025 | Disgyn o uchder dan 2m | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd i'r ysbyty |
| 25/09/2025 | Math arall o ddigwyddiad | Anaf dros 7 diwrnod |
| 15/10/2025 | Taro gan wrthrych sefydlog | Anaf dros 7 diwrnod |
| 26/01/2026 | Taro gan wrthrych yn symud | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd i'r ysbyty |

**Graff 7 – Cymhariaeth tymor hir**




Oherwydd yr argyfwng Covid19, roedd nifer o arferion gweithio wedi eu cyfyngu rhwng 2019 a 2022. Mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio, gofynnodd yr aelodau am ffigyrau cymharol ar gyfer y tymor hir. Mae'r ffigurau yn graff 7 uchod yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau a adroddwyd a chyfanswm y digwyddiadau'n ymwneud â gweithwyr.

Mae'r tabl uchod yn dangos fod y ffigyrau wedi gostwng yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. Mae blwyddyn 2022/23 yn dangos cynnydd o'i gymharu â 2020/21 a 2021/22. Roedd y cynnydd hwn i'w ddisgwyl wrth i weithgarwch gynyddu. Roedd y ffigyrau'n parhau i fod yn is na ffigyrau yn ystod 2019/20 sef y flwyddyn olaf cyn y cyfyngiadau.

Gwelwyd cynnydd yn ystod 2023/24 ond bu rhywfaint o ostyngiad yn 2024/25. Mae digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig wedi parhau i gynyddu. Dyma'r patrwm yn 2025/26 hefyd gyda digwyddiadau'n ymwneud â gweithwyr yn parhau i gynyddu.

Gallai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y cynnydd. Gallai ymwybyddiaeth well o'r angen i roi gwybod am ddigwyddiadau fod yn ffactor.

## 5. Partneriaethau

### Timau Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru

Mae Timau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi bod yn ymgynghori ar y cyd yng ngogledd Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu polisïau cyson ar draws pob sir, yn ogystal ag adolygu ac asesu mesurau'n gysylltiedig â rheoli asbestos, gweithwyr unigol, ac ymddygiad treisgar ac ymosodol.

Mae trafodaethau rheolaidd ynglŷn â meysydd allweddol, yn cynnwys diogelu adeiladauu, hefyd wedi galluogi awdurdodau i gymharu dulliau rheoli presennol a rhannu arfer gorau.

## 6. Ymgynghori ar y Cyd

### Y Grŵp Iechyd a Diogelwch

Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol drwy gydol 2025/26. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch o bob cwr o'r Cyngor rannu gwybodaeth a thrafod materion iechyd a diogelwch allweddol.

Darperir diweddariadau gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar ddatblygiadau ym maes iechyd a diogelwch, yn cynnwys canllawiau perthnasol a gwybodaeth argyhoeddir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae hyn yn galluogi gwasanaethau i adolygu ac asesu eu trefniadau i wneud yn siŵr eu bod yn effeithiol ac yn cydymffurfio.

## 7. Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol


Darperir Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol dwyieithog gan Gyngor Gwynedd, sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae ychydig dros 450 o apwyntiadau ar gael i staff bob blwyddyn. Caiff y rhain eu dyrannu drwy atgyfeiriad gan reolwr llinell neu drwy hunan-atgyfeiriad gan yr aelod staff. Mae tua 200 o apwyntiadau ar gael i staff sy'n credu y gallant elwa o ffisiotherapi. Mae'r apwyntiadau hyn ar gael drwy atgyfeiriad gan y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn dilyn ymgynghoriad. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd 59 o weithwyr eu cyfeirio am ffisiotherapi drwy'r system hon. Mae atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Medra yn gyfrinachol.

## 8. Perfformiad Diogelwch

### Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r siart llif isod yn dangos strwythur sy'n amlinellu'r meysydd ymarferol a llinellau cyfathrebu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei reoli gan y Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol. Mae'r Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol yn adrodd i'r Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd sy'n adrodd i'r Pennaeth Gwasanaeth.

**Siart cyfathrebu Iechyd a Diogelwch**




Mae cynllun gwaith y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhan o gynllun y Gwasanaeth Trwyddedu ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Mae camau gweithredu'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'u nodi isod yn nhabl 4.

**Tabl 4 Gweithredoedd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

| **Camau Gweithredu Allweddol** | **Meini Prawf Llwyddiant** (Sut gwyddom ein bod wedi cyflawni'r Weithred Allweddol?) | **Targedau Chwarterol 2022 / 2023** | | | | **Adnoddau** Ac eithrio eich adnoddau eich hun |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau iechyd a diogelwch (mewnol ac allanol) yn effeithiol | Datblygu cynllun gweithredu Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | 1 | | | 1 drafft | |
| | Adolygu Polisïau – Polisïau ar-lein ar y fewnrwyd wedi'u diweddaru | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | TGCh i ddarparu dolenni o MônITor |
| | | Targed | | | | |
| | | 10 | 7 | 9 | 6 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 10 | 7 | 9 | 6 | |
| | Cofrestr Risg ar gyfer Pobl a allai fod yn Dreisgar/Damweiniau. Monitro system marciwr Pobl Dreisgar Posib. Adolygu bob chwarter. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Targed | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | Canran ymateb i ddamweiniau Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) ar safleoedd yr Awdurdod Lleol o fewn 5 diwrnod. | Ch1 | Ch22 | Ch3 | Ch4 | |
| | | 100% | 100% | 100% | 100% | |
| | | Nifer y damweiniau RIDDOR | | | | |
| | | 0 | 3 | 1 | 1 | |
| | Cyfarfodydd rheoli gwasanaeth. Mynychu cyfarfodydd i adrodd ar faterion Iechyd a Diogelwch pryd a phan fydd angen / neu ar ôl derbyn cais. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Gwasanaethau i drefnu'r cyfarfod a'r lleoliad |
| | | 100% ar ôl derbyn cais neu pan fydd angen. | | | | |
| | | 4 | 2 | 5 | 6 | |
| | Cyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch. Cyfarfodydd Chwarterol. Rhaglen yn seiliedig ar bynciau. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Targed | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | Bwletinau Iechyd a Diogelwch Chwarterol | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | 1 | 2 | 2 | 2 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ar bynciau byw. Y nod yw creu diwylliant Iechyd a Diogelwch. | 100% ar gais | | | | |
| | | 1 | 2 | 2 | 2 | |
| | Gwaith adweithiol yn unol â tharged lefel gwasanaeth o ddarparu ymateb cychwynnol o fewn un diwrnod gwaith. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Ceisiadau fesul chwarter | | | | |
| | | 155 | 179 | 172 | 178 | |
| | | Cyfanswm o 684 | | | | |
| | Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | | | 1 | | |
| | Nifer o ymyriadau iechyd a diogelwch a gynlluniwyd ar safleoedd y Cyngor. Targed cyffredinol yw hwn ar gyfer ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnal ar draws yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith monitro rhagweithiol, archwiliadau a gweithgareddau archwilio ymatebol megis ymchwilio i ddamweiniau. | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| | | Targed | | | | |
| | | 10 | 10 | 10 | 10 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 11 | 10 | 10 | 10 | |
| | | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | |
| Ystadegau Damweiniau | Adroddiadau Chwarterol | 1 | 1 | 1 | 1 | |

## 9. Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch 2026-2031

Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Cyngor ddatblygu Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch i ddarparu fframwaith hirdymor ar gyfer cryfhau arweinyddiaeth, llywodraethiant, diogelwch wedi'i lywio gan ddata a sicrwydd ar draws pob Gwasanaeth. Mae'r Cynllun, sydd wrthi'n cael ei gymeradwyo ar hyn bryd, yn seiliedig ar y risgiau, tueddiadau a gwersi a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, yn cynnwys y cynnydd mewn digwyddiadau yn gysylltiedig â thrais ac ymddygiad ymosodol yn erbyn gweithwyr mewn gwasanaethau rheng flaen.

Unwaith y bydd wedi cael ei gymeradwyo, bydd y Cynllun Strategol yn cael ei ddefnyddio fel sail i Gynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch 2026/27, er mwyn sicrhau bod polisïau gweithredol yn cyd-fynd â chyfarwyddyd strategol y Cyngor a data perfformiad 2025/26.

Mae'r Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch ar gael yn Atodiad 1.

## 10. Casgliad

Mae'r Cyngor yn parhau i ddangos ymrwymiad i reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol, ac i gefnogi hyn mae ganddo drefniadau llywodraethiant trefniadau monitro rheolaidd a llinellau atebolrwydd clir ar draws pob gwasanaeth. Mae'r gostyngiad cyffredinol mewn digwyddiadau yn ystod 2025/26 yn awgrymu bod systemau a mesurau rheoli presennol yn cael effaith gadarnhaol.

Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn amlygu proffil risg newidiol a chynnydd sylweddol mewn digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr. Yn benodol, mae'r cynnydd mewn ymddygiad treisgar, ymosodol a heriol – yn y maes Addysg a gwasanaethau rheng flaen yn bennaf – yn peri cryn bryder. Mae cryn heriau o ran lles staff, gwydnwch gwasanaethau, a chyflawni gwasanaethau yn ddiogel.

Mae mesurau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn, yn cynnwys cryfhau'r cydweithio rhwng  Gwasanaethau, datblygu ymyraethau wedi'u targedu, a sefydlu gweithgorau i ganolbwyntio ar feysydd risg uchel megis ysgolion. Hefyd, mae cynnydd yn dal i gael ei wneud er mwyn datblygu systemau a fframweithiau, yn cynnwys adrodd am digwyddiadau, dulliau rhybuddio a phrosesau cydymffurfio, er mwyn sicrhau gwelliannau pellach.

Mae dull corfforaethol y Cyngor o ran iechyd a diogelwch yn parhau i fod yn gadarn, gyda chyfarwyddyd strategol clir drwy'r Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch.  Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws pob Gwasanaeth a bod risgiau sy'n codi yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch yn darparu ymateb clir a strwythuredig i'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn, er mwyn sicrhau bod risgiau sy'n codi – yn enwedig rheiny sy'n effeithio ar y gweithlu – yn cael eu datrys drwy ddull cydlynol, hirdymor.

I gloi, tra bo perfformiad cyffredinol yn gwella, rhaid cymryd camau gweithredu wedi'u targedu i fynd i'r afal â'r risgiau'n gysylltiedig â'r gweithlu, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddarparu amgylchedd gwaith diogel a gwydn i staff, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

**Atodiad 1 – Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch 2026 - 2031**

Ynys Môn
The Isle of Anglesey



# Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch 2026-2031

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /

This document is also available in English

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

www.ynysmon.llyw.cymru

# Rhagair



Y Cynghorydd Gary Pritchard
Arweinydd y Cyngor



Dylan J. Williams
Prif Weithredwr

Mae iechyd, diogelwch a lles ein gweithlu wrth galon popeth a wnawn. Fel Cyngor, mae dyletswydd gyfreithiol a moesol arnom i ddarparu amgylchedd waith ddiogel, gwarchod ein gweithwyr a sicrhau fod gwasanaethau'n cael eu darparu heb niwed.

Mae'r Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch hwn yn nodi ein prif flaenoriaethau ar gyfer creu diwylliant lle mae diogelwch wedi'i wreiddio ym mhob penderfyniad a gweithred. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i arweinyddiaeth gref, llywodraethiant cadarn a gwelliant parhaus. Trwy ddefnyddio data, meithrin cymwyseddau ar bob lefel a chynnal atebolrwydd clir, rydym yn anelu i leihau risgiau, diogelu llesiant ac adeiladu gwytnwch o fewn y Cyngor cyfan.

Mae ein dull yn rhagweithiol a chydweithredol. Byddwn yn gweithio fel tîm i gynnal y safonau iechyd a diogelwch uchaf.

Nid yw'r cynllun strategol hwn yn ymwneud â chydymffurfio yn unig; mae'n ymwneud â chreu diwylliant cadarnhaol lle mae pawb yn teimlo'n gyfrifol am ddiogelwch a bod grym ganddynt i weithredu.

# Diben

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i breswylwyr Ynys Môn ac ymwelwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cynnal ein stoc dai; priffyrdd, llwybrau troed; cyfleusterau morwrol; ysgolion, darpariaeth gofal; llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac atyniadau ymwelwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at y weledigaeth o greu Ynys Môn fydd yn iach lle gall pobl ffynnu.

Mae'r Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch yn darparu fframwaith clir ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch ym mhob gwasanaeth a gweithrediad.


Mae'r cynllun yn nodi ein prif flaenoriaethau, mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ac arfer orau ac mae'n hyrwyddo diwylliant diogelwch cadarnhaol lle mae pawb yn derbyn cyfrifoldeb. Mae'r cynllun strategol yn ganolog er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a darparu gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel i'n cymuned.

- Rydym wedi ymroi i warchod pobl a lleoedd a chynorthwyo pawb i fyw bywydau mwy diogel ac iach.
- Mae ein rôl yn mynd tu hwnt i warchod gweithwyr ac mae'n cynnwys rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yn y Cyngor.
- Rydym yn mynd ati i sicrhau fod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu lleoliadau gwaith, yn y lleoedd y maen nhw'n ymweld â nhw ac yn eu hamgylchedd.

# Fframwaith

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i roi trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, bydd y Cyngor yn defnyddio'r fframwaith Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu. Mae'r dull hwn yn darparu ffordd eglur, strwythuredig a dibynadwy ar gyfer nodi risgiau, eu rheoli ac adolygu perfformiad. Dyma fydd sylfaen dull y Cyngor o reoli iechyd a diogelwch.

1. **Cynllunio** - Asesu safonau a rheolaethau presennol, nodi bylchau posib, cynllunio ar gyfer gwelliant, nodi cyfrifoldebau.
2. **Gwneud** - cwblhau cofrestr risg er mwyn blaenoriaethu gweithredoedd, darparu'r cyfarpar a'r offer cywir, hyfforddi a rhoi cyfarwyddyd, er mwyn sicrhau fod pawb yn gymwys, goruchwylio er mwyn sicrhau fod trefniadau'n cael eu dilyn.
3. **Gwirio** - Adolygu perfformiad, gan gynnwys defnyddio damweiniau a digwyddiadau, data afiechyd, camgymeriadau a phrofiad perthnasol, ailymweld â chynlluniau, dogfennau polisi ac asesiadau risg os oes angen eu diweddaru, gweithredu ar wersi a ddysgwyd.
4. **Gweithredu** - Sicrhau fod y cynllun wedi cael ei weithredu - nid yw 'dogfennaeth' ar ei ben ei hun yn fesur perfformiad da, mae angen asesu bod y risgiau cael eu rheoli a bod y canlyniad a ddeisyfir yn cael ei gyflawni.



# Amcanion Strategol Cynllun y Cyngor

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolog i benderfyniadau a wneir ar bob lefel; mae'n darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a gyrru blaenoriaethau; siapio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Wrth ei wraidd mae ein dyhead i weithio gyda thrigolion, cymunedau a phartneriaid Ynys Môn i gynnig y gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'.

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

### Yr Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

# Gwerthoedd Craidd:

Mae gwerthoedd craidd y Cyngor yn sylfaen i bopeth a wnawn, gan lywio ein diwylliant a dylanwadu ar sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau, gweithio gyda phartneriaid a darparu gwasanaethau.

## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys


Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cyngor a'r Ynys.

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

# Y Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn nodi’r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a’n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.



# Meysydd blaenoriaeth allweddol

1. Arweinyddiaeth a diwylliant

2. Llywodraethu a chydymffurfio

3. Diogelwch a chymhwysedd sy’n seiliedig ar ddata

4. Sicrwydd

# Arweinyddiaeth a diwylliant

## Pam bod hyn y bwysig?

Mae arweinyddiaeth gref a diwylliant sefydliadol cadarnhaol yn hanfodol er mwyn cynnal gweithlu'r cyngor sydd yn ddiogel a gwydn.

Mae diwylliant diogelwch gwydn yn sylfaen i weithrediadau diogel. Pan fydd gwerthoedd ar y cyd, credoau ac agweddau tuag at ddiogelwch yn gadarnhaol, maent yn dylanwadu ar sut mae gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu, gan greu dull rheoli risgiau rhagweithiol.

Pan fydd uwch swyddogion yn ymgysylltu'n weithredol ag iechyd a diogelwch, mae'n arddangos arweinyddiaeth weledol ac ymrwymiad clir i safonau uchel.

Trwy wreiddio iechyd a diogelwch ym mhob rhan o'r cyngor, rydym yn lleihau risgiau, yn cefnogi lles ac yn adeiladu ymddiriedaeth - gan sicrhau gwytnwch ledled y cyngor cyfan.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Hyrwyddo iechyd a diogelwch fel cyfrifoldeb sefydliadol ar y cyd.
- Egluro rolau arweinyddiaeth a disgwyliadau.
- Meithrin diwylliant o dderbyn cyfrifoldebau, bod yn agored, dysgu ac atebolrwydd mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.
- Datblygu dull cadarnhaol a rhagweithiol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch ym mhob rhan o'r Cyngor.
- Monitro ac adolygu arferion i sicrhau fod safonau iechyd a diogelwch yn gwella'n barhaus.
- Hyrwyddo atebolrwydd a chymryd camau rhagweithiol i adrodd am beryglon.
- Modelu ymddygiadau diogel.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Defnyddio cyfathrebu mewnol i atgyfnerthu disgwyliadau a dathlu arfer dda.
- Cynnal adolygiadau rheolaidd o berfformiad iechyd a diogelwch.
- Sicrhau fod adnoddau priodol yn cael eu darparu er mwyn rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol.
- Bydd rheolwyr yn arwain trwy esiampl ac yn sicrhau fod systemau ar waith i fonitro prosesau gweithio diogel.
- Mesur newid cadarnhaol mewn diwylliant.
- Darparu cefnogaeth strategol i wasanaethau er mwyn gwreiddio diwylliant o ddiogelwch.
- Cynnwys iechyd a diogelwch ym mhob penderfyniad busnes.
- Adolygu a monitro arferion yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus.
- Cynnwys iechyd a diogelwch mewn trefniadau datblygu arweinyddiaeth ac adolygiadau perfformiad.

# Llywodraethu a chydymffurfio

## Pam bod hyn y bwysig?

Mae llywodraethu cadarn yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, yn diogelu ein henw da ac yn darparu sicrwydd i aelodau etholedig, rheoleiddwyr a staff.

Mae llwybrau uwchgyfeirio clir a threfniadau adrodd tryloyw yn golygu y gellir ymateb yn brydlon a sicrhau gwelliant parhaus.

Mae cydymffurfio â deddfwriaeth, polisïau mewnol ac arfer orau cydnabyddedig yn hanfodol i warchod lles gweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned ehangach.

Mae cynnal y safonau hyn ar draws meysydd gwaith y Cyngor yn sicrhau dull cyson, cyngor-gyfan.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cryfhau trefniadau trosolwg ac uwchgyfeirio ar gyfer pryderon iechyd a diogelwch.
- Darparu adroddiadau sicrwydd strwythuredig i uwch arweinwyr ac aelodau etholedig.
- Alinio archwiliadau ac arolygiadau â risgiau a blaenoriaethau strategol.
- Mae disgwyl i bob gwasanaeth gydymffurfio â'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch a sefydlwyd.
- Dylai gwasanaethau fynd ati i hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch ac atebolrwydd.
- Lle bo'n bosib, dylid alinio dulliau gwaith ar draws gwasanaethau er mwyn sicrhau cysondeb ac arfer orau.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cynnal fframwaith uwchgyfeirio clir ar gyfer staff a rheolwyr.
- Comisiynu archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau perfformiad rheolaidd.
- Defnyddio dangosfyrddau a dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) i fonitro tueddiadau a llywio penderfyniadau.
- Rhannu canfyddiadau a dysgu ymysg yr holl wasanaethau er mwyn gyrru gwelliant.
- Sicrhau fod polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan y Cyngor.
- Bydd gwasanaethau unigol yn datblygu a gweithredu gweithdrefnau ar lefel gwasanaeth i sicrhau eu bod yn alinio ac yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y cyngor.
- Egluro a chyfathrebu canlyniadau os nad yw disgwyliadau'n cael eu cyflawni.
- Sicrhau adnoddau digonol ar gyfer tîm ymgynghorol Iechyd a Diogelwch y Cyngor.

# Diogelwch a chymhwysedd sy'n cael ei lywio gan ddata

## Pam bod hyn y bwysig?

Mae defnyddio data mewn iechyd a diogelwch yn hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus, seiliedig ar dystiolaeth sydd yn gwarchod gweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned ehangach.

Mae data dibynadwy'n caniatáu ymyrraeth ragweithiol; mesur effaith dros amser a gyrru gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cryfhau tryloywder ac atebolrwydd ar draws y sefydliad.

Mae cymhwysedd ar bob lefel yr un mor bwysig. Mae gweithlu medrus, sy'n cael ei gefnogi gan ddata cywir, yn sicrhau fod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac mae'n creu amgylchedd gwaith diogel, gwybodus.

Trwy gyfuno data cadarn gydag arbenigedd proffesiynol, gallwn reoli risgiau'n rhagweithiol, gwella gwasanaethau ac adeiladu gwydnwch o fewn y Cyngor cyfan.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Monitro data mewnol a DPA er mwyn cadw llygaid ar gynnydd.
- Nodi meysydd i'w gwella gan ddefnyddio data.
- Darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu er mwyn datblygu cymhwysedd.
- Defnyddio data i lywio'r gwaith o ddyrannu adnoddau a gwneud penderfyniadau.
- Buddsoddi er mwyn datblygu a hyfforddi staff.
- Defnyddio data i nodi tueddiadau, arfarnu effaith a llywio penderfyniadau.
- Hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch cyson ac o ansawdd uchel.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Sicrhau adroddiadau rhagweithiol ac ymyrraeth amserol.
- Monitro data perfformiad yn erbyn llinellau sylfaen sefydledig er mwyn nodi meysydd i'w gwella.
- Gwella systemau ar gyfer casglu a rhannu gwersi a ddysgwyd.
- Darparu dangosfyrddau eglur ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Cynnig rhaglenni hyfforddi a chynefino cynhwysfawr.
- Cynnal matrics hyfforddiant corfforaethol er mwyn monitro cydymffurfiaeth.
- Rhannu gwybodaeth ymysg gwasanaethau er mwyn cefnogi dull cydgysylltiedig o weithio.
- Defnyddio meincnodi a data allanol i lywio cynllunio strategol.

# Sicrwydd

## Pam bod hyn y bwysig?

Mae gweithgareddau sicrwydd yn hanfodol i wirio bod systemau iechyd a diogelwch, rheolaethau a gweithdrefnau yn gweithredu'n effeithiol ac yn unol â gofynion cyfreithiol.

Mae'r prosesau hyn yn darparu hyder seiliedig ar dystiolaeth i randdeiliaid, ac maent yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau fod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Trwy sicrwydd rheolaidd, mae'r Cyngor yn arddangos diwydrwydd dyladwy, yn atgyfnerthu atebolrwydd ac yn cynnal ei ymrwymiad i warchod iechyd a diogelwch.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mabwysiadu dull holistaidd ar gyfer arfarnu effaith ac effeithiolrwydd cyffredinol cynlluniau iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor.
- Archwilio ac adolygu trefniadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a pholisïau mewnol perthnasol.
- Nodi bylchau a chyfleoedd gwella trwy archwiliadau strwythuredig ac adolygiadau perfformiad.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Datblygu amserlen archwilio strwythuredig er mwyn asesu cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd ym mhob gwasanaeth.
- Sefydlu trefniadau clir i adrodd ar ganlyniadau archwiliadau, gan sicrhau tryloywder a dilyniant amserol.
- Cofnodi a chadw llygaid ar ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan bennu gweithredoedd a'u monitro.
- Darparu adroddiadau effeithiol a chryno i'r Tîm Rheoli er mwyn cefnogi trosolwg strategol a phenderfyniadau gwybodus.

# Sut fydd llwyddiant yn edrych erbyn 2031

Erbyn 2031 bydd iechyd a diogelwch wedi'i wreiddio fel rhan greiddiol o sut mae'r Cyngor yn arwain, cynllunio a darparu gwasanaethau.

- **Arweinyddiaeth a pherchnogaeth eglur**
  Mae cyfrifoldebau iechyd a diogelwch wedi'u deall yn iawn ac yn cael eu gweithredu'n gyson ar bob lefel ac mae arweinwyr yn cael eu gweld yn gosod disgwyliadau ac yn modelu ymddygiadau diogel.
- **Diwylliant diogelwch cadarnhaol ac aeddfed**
  Mae staff yn teimlo'n hyderus i adrodd am beryglon, digwyddiadau a digwyddiadau fu ond y dim a digwydd, ac mae dysgu'n cael ei rannu'n agored er mwyn atal niwed a gyrru gwelliant.
- **Llywodraethiant a sicrwydd cryf**
  Mae gan y Cyngor sicrwydd clir a dibynadwy fod risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mae uwch arweinwyr yn uchafu materion yn brydlon ac yn cynnal trosolwg gwybodus.
- **Penderfyniadau wedi'u llywio gan ddata**
  Defnyddir data cywir ac amserol i nodi tueddiadau, blaenoriaethu risgiau, targedu adnoddau ac ymyrryd yn gynnar, gan leihau digwyddiadau a niwed difrifol.
- **Gweithlu cymwys a hyderus**
  Mae staff a rheolwyr yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r gefnogaeth gywir i reoli risgiau'n ddiogel wrth gyflawni eu rolau, ac maent yn derbyn cefnogaeth gyson drwy hyfforddiant a datblygiad.
- **Safonau cyson ym mhob gwasanaeth**
  Mae trefniadau iechyd a diogelwch yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y Cyngor ac maent yn gymesur â'r risg ac yn cyd-fynd ag arfer orau cydnabyddedig.
- **Canlyniadau a hyder y cyhoedd wedi gwella**
  Llai o ddigwyddiadau risg uchel, llesiant wedi gwella, mwy o hyder ymysg gweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth, Aelodau a rheoleiddwyr.

# Llywodraethu, Monitro a Rheoli Risgiau

**Y prif risgiau'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun strategol**

- Capasiti mewnol
- Newidiadau deddfwriaethol neu newidiadau o ran gofynion rheoleiddwyr
- Angen ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau nad oedd wedi'u rhagweld
- Cyfyngiadau cyllidebol
- Gwrthwynebiad i newid
- Rhwystrau diwylliannol ac agwedd hunanfodlon

**Sut fyddwn ni'n rheoli'r risgiau hyn**

- Trefniadau llywodraethu clir er mwyn sicrhau atebolrwydd, cydlyniant a throsolwg strategol
- Adroddiadau chwarterol sy'n crynhoi gweithredoedd, canlyniadau a materion ar gyfer y Tîm Rheoli, gyda materion yn cael eu cyfeirio at y Tîm Arweinyddiaeth yn ôl y gofyn
- Adolygu data damweiniau a digwyddiadau yn rheolaidd ar lefel Gwasanaeth, Rheolwyr a'r Tîm Arweinyddiaeth (misol a/neu chwarterol)
- Monitro'r canlynol yn barhaus:
    - Gwelliannau a gyflawnwyd
    - Meysydd pryder
    - Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol
- Adroddiad cynnydd blynyddol ac adolygiad llawn o'r cynllun strategol er mwyn sicrhau perthnasedd ac effeithiolrwydd parhaus